



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

www.gov.uk/defra

Cynigion i wahardd defnyddio microbelennau plastig mewn cosmetigau a chynhyrchion gofal personol yn y DU a chais am dystiolaeth ynglŷn â ffynonellau eraill o ficrobennau sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd morol

Crynodeb o'r ymatebion

Gorffennaf 2017



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Department of
**Agriculture, Environment
and Rural Affairs**
www.daera-ni.gov.uk



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot

(h) Hawlfraint y Goron 2014

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn:

<https://www.gov.uk/government/consultations/banning-the-use-of-microbeads-in-cosmetics-and-personal-care-products>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn atom yn:

marinelitter@defra.gsi.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Trosolwg o'r ymatebion	4
Cynigion i wahardd microbelennau mewn cosmetigau a chynhyrchion gofal personol	5
Casglu gwybodaeth i lywio camau gweithredu gan y DU i fynd i'r afael â llygredd microblastigau morol	14
Atodiad A: Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad	20
Atodiad B: Rhestr o'r ymatebwyr	22

Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ymateb Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad ar "Cynigion i wahardd microbelennau plastig rhag cael eu defnyddio mewn cosmetigau a chynhyrchion gofal personol yn y DU a chais am dystiolaeth ynglŷn â ffynonellau eraill o ficrobelennau sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd morol" a gynhaliwyd rhwng 20 Rhagfyr 2016 a 28 Chwefror 2017 (<https://consult.defra.gov.uk/marine/microbead-ban-proposals>).
2. Gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau ar gynigion ar gyfer gwahardd cosmetigau a chynhyrchion gofal personol sy'n cynnwys microbelennau a all niweidio'r amgylchedd morol rhag cael eu gweithgynhyrchu neu eu gwerthu yn y DU. At hynny, ceisiodd yr ymgynghoriad gasglu tystiolaeth am faint o effaith y mae ffynonellau eraill o lygredd plastigau morol posibl yn ei chael ar yr amgylchedd, er mwyn llywio camau gweithredu gan y DU i ddiogelu'r amgylchedd morol yn y dyfodol. Gweler Atodiad A am restr o gwestiynau'r ymgynghoriad.
3. Hoffai Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein hymgyngoriad. Mae'r cynigion wedi'u mireinio yn dilyn yr ymgynghoriad a bydd yr ymatebion yn parhau i'n helpu i ddatblygu camau gweithredu gan y DU i ddiogelu'r amgylchedd morol yn y dyfodol.

Trosolwg o'r ymatebion

4. Cafwyd cyfanswm o 431 o ymatebion. Cyflwynwyd y rhan fwyaf gan unigolion ond cafwyd ymatebion o amrywiaeth eang o sefydliadau hefyd gan gynnwys cwmnïau a chymdeithasau cosmetigau, elusennau amgylcheddol a grwpiau ymgyrchu, sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol a sefydliadau pysgota. Gweler Atodiad B am y rhestr o ymatebwyr.
5. Dim ond cydnabod ein bod wedi ymgynghori â hwy a wnaeth nifer o ymatebwyr; cyflwynodd y rhan fwyaf sylwadau ar y gwaharddiad arfaethedig ar ddefnyddio microbelennau a/neu faterion mwy cyffredinol a oedd yn ymwneud â sbwriel morol.
6. Croesawodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y gwaharddiad arfaethedig. Awgrymodd llawer addasiadau i gwmpas y gwaharddiad a/neu o ran pryd y dylai'r gwaharddiad ddod i rym. O'r rhain, cynigiodd rhai y dylid ymestyn y cwmpas i gynnwys cynhyrchion ychwanegol; nododd eraill y dylid cyfyngu arno fel ei fod yn cynnwys llai o gynhyrchion. Galwodd rhai am fwy o amser i gyflwyno'r gwaharddiad tra gofynnodd eraill am i'r gwaharddiad gael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl. Cafwyd awgrymiadau hefyd ynglŷn â geiriad amgen ar gyfer y

gwaharddiad, eithriadau, dulliau o fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth ac effeithiau posibl ar ddiwydiannau, mewforion a'r amgylchedd. Defnyddiwyd yr awgrymiadau hyn i fireinio ein cynigion a pharatoi deddfwriaeth ddrafft.

7. Cydnabu llawer o ymatebwyr fod angen cymryd camau pellach er mwyn mynd i'r afael â ffynonellau ychwanegol o sbwriel morol. Roedd yr ymatebion yn cynnwys awgrymiadau ynglŷn â ffynonellau ychwanegol o lygredd morol a achosir gan amrywiaeth o ddiwydiannau a defnyddiau, yn ogystal â gwaith ymchwil perthnasol. Roedd yr ymatebion hefyd yn cynnwys ymyriadau posibl i fynd i'r afael â ffynonellau eraill o lygredd morol, gan gynnwys gwella seilwaith, datblygu technolegau ac ymrwymadau gwirfoddol.
8. Cyflwynodd nifer o ymatebwyr sylwadau ar faterion amgylcheddol mwy cyffredinol. Mae'r rhain wedi'u nodi ond ni chânt eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.
9. Lle y bo'n briodol, byddwn yn rhannu gwybodaeth o ymatebion a gawsom â chydweithwyr yn OSPAR (Confensiwn Oslo-Paris ar warchod amgylchedd morol Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd), yn arbennig yr arweinwyr gorchwyl hynny sy'n gyfrifol am gyflawni camau gweithredu allweddol o Gynllun Gweithredu Rhanbarthol OSPAR ar Sbwriel Morol¹.

Cynigion i wahardd microbelennau mewn cosmetigau a chynhyrchion gofal personol

Mater a godwyd: cwmpas y gwaharddiad

10. Mynegodd llawer o ymatebwyr eu cefnogaeth i agweddau ar y gwaharddiad arfaethedig, gan gynnwys y ffaith nad yw'n cynnwys eithriad ar gyfer cynhyrchion bioddiraddadwy, terfyn maint is ar gyfer microbelennau na chyfyngiad ar sail swyddogaeth (h.y. ni ddylai'r gwaharddiad fod wedi'i gyfyngu i ficrobelennau a ddefnyddir at ddibenion penodol, e.e. cael gwared ar groen marw).

¹ <http://www.ospar.org/documents?v=34422>

11. Gofynnodd sawl ymatebwr am i'r gwaharddiad gael ei gyfyngu i gynhyrchion sydd i'w defnyddio i gael gwared ar groen marw a/neu lanhau, yn unol â'r gwaharddiad yn UDA.
12. Gofynnodd llawer o ymatebwyr am i gwmpas y gwaharddiad fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac y dylid ei addasu er mwyn sicrhau ei fod yn targedu plastigau sy'n niweidio'r amgylchedd morol. Fodd bynnag, roedd y sylwadau yn amrywio o ran sut y dylid ymdrin â'r achosion hynny lle nad oes unrhyw dystiolaeth gadarn. Er bod rhai o blaid mabwysiadu dull gweithredu mwy rhagofalus, e.e. ein bod yn gwahardd microbelennau plastig ym mhob cynnyrch oni fydd dystiolaeth glir nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd morol, dywedodd eraill mai dim ond os oes dystiolaeth glir eu bod yn achosi niwed y dylid gwahardd cynhyrchion.
13. Gofynnodd sawl ymatebwr am i'r gwaharddiad gael ei ymestyn i gynnwys pob cynnyrch sy'n achosi i ficrobelennau gael eu golchi i lawr y draen gyda'r canlyniad y gallent fynd i mewn i'r amgylchedd morol, gan gynnwys colur a adewir ar y croen ("leave-on") ac eli atal haul. Cyfeiriodd rhai at frandiau neu gynhyrchion colur penodol yr amheuir eu bod yn cynnwys gronynnau o ficroblastigau. Rhoddwyd manylion arolwg o ymddygiad defnyddwyr sy'n awgrymu bod rhai o'r cynhyrchion hyn hefyd yn cael eu golchi i lawr y draen a'i bod yn bosibl, felly, eu bod yn cyfrannu at y llwyth o ficroblastigau sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd morol.
14. Nododd ymatebwyr eraill na ddylid ymestyn y gwaharddiad i gynnwys cosmetigau a adewir ar y croen am eu bod yn dweud nad oedd digon o dystiolaeth o'r effaith amgylcheddol ac y byddai'n anodd ailfformiwleiddio'r cynhyrchion hyn. Nododd ymatebion gan y diwydiant cosmetigau y byddai angen ailfformiwleiddio miloedd o gynhyrchion. Nodwyd y gallai fod angen ailfformiwleiddio hyd at 90% o bortffolios cynhyrchion rhai cwmnïau. Nodwyd hefyd fod ailfformiwleiddio yn broses hir a drud ac, felly, y byddai i hyn oblygiadau cost sylweddol i'r diwydiant cyfan, yn enwedig cwmnïau bach, y gallai amharu ar gystadleurwydd byd-eang a chyfyngu ar ddewis defnyddwyr ac y gallai olygu y byddai'n rhaid i symiau mawr o gynhyrchion fynd i safleoedd tirlenwi os na châi digon o amser ei ganiatáu i'w hailfformiwleiddio.
15. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod cosmetigau rinsio i ffwrdd yn fan cychwyn synhwyrol, am fod dystiolaeth gadarn o'r niwed y gallant ei achosi ac am fod opsiynau amgen addas eisoes wedi'u datblygu, ond y dylai gwaith yn y dyfodol edrych ar gynhyrchion eraill a roddir ar y croen gan gynnwys colur a all gael ei olchi i ffwrdd ar ryw adeg hefyd.
16. Nododd rhai ymatebwyr categorïau penodol o bolymer yr oeddent yn credu y dylid eu cynnwys yn y gwaharddiad, gan gynnwys plastigau lled-solet a

polymerau hylifol/cwyr. Y rheswm dros hyn yw bod y polymerau hyn yn ymddwyn yn yr un ffordd â microblastigau solet yn yr amgylchedd morol.

17. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cynnwys cynhyrchion glanhau yn y gwaharddiad. Fodd bynnag, cadarnhaodd Cymdeithas Diwydiant Cynhyrchion Glanhau'r DU (UKCPI) nad oes unrhyw ficrobelennau yn cael eu defnyddio mewn cynhyrchion glanhau i'r cartref na chynhyrchion glanhau diwydiannol a gynhyrchir yn y DU.

Ymateb y Llywodraeth: cwmpas y gwaharddiad

18. Bwriedir i'r gwaharddiad arfaethedig atal microbelennau plastig rhag cael eu defnyddio mewn cynhyrchion y bwriedir iddynt gael eu golchi i lawr y draen, er mwyn diogelu'r amgylchedd morol. Nid yw'r diben yr ychwanegir y gronynnau plastig at gynnyrch i'w gyflawni yn dylanwadu ar y niwed a achosir ganddynt. Felly, yn ein barn ni, nid yw'n briodol cyfyngu cwmpas y gwaharddiad i ficrobelennau plastig a ddefnyddir mewn cynhyrchion i gael gwared ar groen marw a/neu lanhau yn hytrach na'r holl gosmetigau rinsio i ffwrdd a chynhyrchion gofal personol sy'n cynnwys microbelennau.
19. Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydbwysu ei hymrwymiad i ddiogelu'r amgylchedd morol drwy wneud defnydd cymesur o ddeddfwriaeth. Mae dystiolaeth glir a chadarn bod microbelennau yn cael eu defnyddio mewn cosmetigau rinsio i ffwrdd a chynhyrchion gofal personol, eu bod yn cyrraedd yr amgylchedd morol a'u bod yn achosi niwed yno. Dyma'r sail dros ein cynigion. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad nid oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha gynhyrchion sy'n cynnwys microblastigau a'r ffordd y cânt eu gwaredu. Mae'r broses o ailfformiweiddio a nodi opsiynau amgen addas hefyd yn llai datblygedig. Felly, yn ein barn ni, nid yw'n briodol ymestyn y gwaharddiad i gynnwys cynhyrchion eraill ar hyn o bryd. Mae'r dull hwn o weithredu yn gyson â'r camau sy'n cael eu cymryd mewn gwledydd eraill sydd wedi ymrwmo i gymryd camau i wahardd microbelennau mewn cynhyrchion rinsio i ffwrdd a chynhyrchion gofal personol.
20. Serch hynny, rydym yn cydnabod y gallai microbelennau mewn cynhyrchion eraill gyrraedd yr amgylchedd morol o dan amgylchiadau penodol. Felly, byddwn yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cyngori ar Sylweddau Peryglus (HSAC) i adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael am fodolaeth gronynnau plastig solet mewn cynhyrchion heblaw cosmetigau rinsio i ffwrdd a chynhyrchion gofal personol, a'r tebygolrwydd y byddant yn mynd i mewn i'r amgylchedd morol. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa yng ngoleuni ei gyngor.

21. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y gwaith caled y mae'r diwydiant cosmetigau wedi'i wneud hyd yma i ailfformiwleiddio ei gynhyrchion rinsio i ffwrdd a thynnu microbelennau ohonynt. Rydym yn annog y diwydiant i barhau â'i waith da drwy ystyried cael gwared ar ficrobelennau mewn cynhyrchion eraill a allai gyrraedd yr amgylchedd morol.
22. Mae Cynllun Gweithredu Rhanbarthol OSPAR ar Sbwriel Morol yn cynnwys cam gweithredu i ymgysylltu â'r diwydiant cosmetigau Ewropeaidd ehangach i dynnu plastigau o gynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol. Byddwn yn rhannu ymatebion perthnasol o'r ymgynghoriad hwn a chanlyniadau adolygiad HSAC â'r arweinwyr gorchwyl ar gyfer y cam gweithredu hwn ac yn parhau i gefnogi gwaith OSPAR yn y maes hwn.

Mater a godwyd: amseriadau

23. Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno â'r amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu'r gwaharddiad. Gofynnodd rhai am iddo gael ei gyflwyno'n gynt er mwyn sicrhau bod cyn lleied o ficroblastigau â phosibl yn cael eu rhyddhau i'r amgylchedd; dywedodd eraill nad oedd yr amserlen yn ddigon hir i alluogi cwmnïau i ailfformiwleiddio eu cynhyrchion.
24. Nododd sawl ymatebwr, pe bai cwmpas y gwaharddiad yn cael ei ymestyn, y byddai angen amser ychwanegol i ailfformiwleiddio cynhyrchion a oedd y tu allan i'w gwmpas yn flaenorol. Awgrymodd rhai y dylid caniatáu i gwmnïau sy'n cyflenwi cynhyrchion sy'n anodd eu hailfformiwleiddio wneud cais am estyniad i'r amserlen.
25. Nodwyd hefyd y dylai'r Gweinyddiaethau Datganoledig ddilyn amserlen debyg i un Lloegr.

Ymateb y Llywodraeth: amseriadau

26. Mae'r amserlen a ddatblygwyd gennym yn adlewyrchu ein huchelgais i weithredu cyn gynted â phosibl. Rydym yn cydnabod ei bod yn amserlen heriol. Diben hyn yw sicrhau bod cyn lleied o blastig â phosibl yn mynd i mewn i'r amgylchedd morol, gan gydbwyso'r ffaith bod angen i ddiwydiannau ailfformiwleiddio cynhyrchion a'r ffaith bod opsiynau amgen addas eisoes wedi'u nodi a'u bod yn cael eu defnyddio'n helaeth. Bu'r diwydiant yn gweithio i dynnu microbelennau o gynhyrchion ers peth amser.
27. Bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig yn cyflwyno deddfwriaeth yn unol â'u prosesau deddfwriaethol a'u hamserlenni eu hunain. Cyhoeddir deddfwriaeth cyn iddi gael ei gwneud ac, felly, bydd y rhai sydd â diddordeb yn gallu cyflwyno sylwadau arni.

Mater a godwyd: geiriad amgen ar gyfer gwaharddiad

28. Awgrymodd llawer o ymatebwyr fod angen diffiniadau clir ar gyfer sawl term, gan gynnwys plastig, microblastig, microbelen, solet, rinsio i ffwrdd a chynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol. Rhoddodd rhai ddiffiniadau ar gyfer un neu fwy o'r termau hyn.

Ymateb y Llywodraeth: geiriad amgen ar gyfer gwaharddiad

29. Rydym yn ddiolchgar am yr holl awgrymiadau a ddaeth i law sydd wedi cael eu hystyried a'u defnyddio wrth ddrafftio'r ddeddfwriaeth lle y bo'n briodol.

Mater a godwyd: eithriadau

30. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid darparu eithriadau ar gyfer cynhyrchion meddygol, er na roddwyd unrhyw enghreifftiau penodol o gynhyrchion o'r fath.
31. Awgrymodd eraill y dylid eithrio cynhyrchion bioddiraddadwy, neu y dylai'r geiriad adael lle i ddatblygiadau arloesol bioddiraddadwy.

Ymateb y Llywodraeth: eithriadau

32. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer bioddiraddadwyedd yn yr amgylchedd morol. Er bod eitemau penodol yn cael eu marchnata fel rhai bioddiraddadwy neu rai y gellir eu compostio, mae'r rhain yn aml yn gofyn am amodau penodol megis y defnydd o wres neu olau uwchfioled (UV). Mae'r amodau yn ddwfn yn y cefnfor yn wahanol iawn. Mae llawer o eitemau plastig yn torri'n ddarnau llai o faint yn yr amgylchedd morol ond nid ydynt yn dadelfennu'n gyfan gwbl yn gyfansoddion diniwed. Ni phrofwyd bod unrhyw ddeunyddiau yn bioddiraddio'n ddigonol yn yr amgylchedd morol agored. Felly, yn ein barn ni, nid yw'n briodol cynnwys eithriad ar y sail hon. Ni nodwyd unrhyw ddefnydd meddygol ar gyfer microbelennau plastig rinsio i ffwrdd eto. Gellid ystyried eithriad ar sail defnyddiau meddygol yn y dyfodol yng ngoleuni datblygiadau meddygol newydd.

Mater a godwyd: ymyriadau a rhybuddion ar gyfer cynhyrchion na fwriedir iddynt fynd i lawr y draen ond y gellir eu gwaredu fel yna

33. Dywedodd llawer o ymatebwyr y dylai unrhyw gynhyrchion a allai gael eu gwaredu i lawr y draen gael eu cwmpasu gan y gwaharddiad (gweler "Mater a godwyd: cwmpas y gwaharddiad" uchod). Dywedodd eraill y dylid defnyddio labeli ar gynhyrchion a/neu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r potensial ar gyfer niwed i'r amgylchedd morol ac annog defnyddwyr i gael gwared ar y cynhyrchion hyn drwy eu rhoi yn y bin (e.e. tynnu colur â chlwtyn a rhoi'r clwtyn neu'r pad cotwm yn y bin, yn hytrach na'i olchi i ffwrdd yn y gawod). Nodwyd bod symbol

“Peidiwch â fflycio” Cymdeithas Cynhyrchion Tafladwy a Ffabrigau Anweuedig Ewrop (EDANA) yn symbol y gellid ei ddefnyddio ar ddeunydd pacio.

34. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid datblygu cynllun labelu sicrhau ansawdd amgylcheddol, gyda'r nod cychwynnol o labelu cynhyrchion yn y sector cosmetigau ond y gellid ei gyflwyno, maes o law, i gynhyrchion perthnasol eraill a allai fynd i mewn i'r amgylchedd morol.

Ymateb y Llywodraeth: ymyriadau a rhybuddion ar gyfer cynhyrchion na fwriedir iddynt fynd i lawr y draen ond y gellir eu gwaredu fel yna

35. Mae Cynllun Gweithredu Rhanbarthol OSPAR ar Sbwriel Morol yn cynnwys cam gweithredu i werthuso pob cynnyrch a phroses sy'n cynnwys micoblastigau cynradd a chymryd camau, os yw'n briodol, i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd morol. Byddwn yn rhannu ymatebion perthnasol o'r ymgynghoriad hwn â'r arweinwyr gorchwyl ar gyfer y cam gweithredu hwn ac yn parhau i gefnogi gwaith OSPAR yn y maes hwn.

Mater a godwyd: cydymffurfio a gorfodi

36. Awgrymodd sawl ymatebwr ddulliau o brofi cydymffurfiaeth. Nododd rhai na fydd technegau dadansoddol yn ddull ymarferol o nodi tarddiad unrhyw ficrobelennau a geir mewn sbwriel morol. Nododd eraill y lleihad sylweddol yn y defnydd o ficrobelennau a sicrhawyd eisoes gan y diwydiant cosmetigau o'i wirfodd, sy'n awgrymu mai prin iawn yw'r gweithgynhyrchwyr na fyddent yn cydymffurfio â gwaharddiad. Awgrymodd rhai y gallai'r diwydiant, i bob pwrpas, reoleiddio ei hun, o ystyried argymhellion arweinwyr y diwydiant i gydymffurfio a'r tebygolrwydd y bydd gweithgynhyrchwyr yn profi cynhyrchion cystadleuwyr a/neu y gellid sefydlu corff ffurfiol ar gyfer y diwydiant i sicrhau cydymffurfiaeth.
37. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r Awdurdod Cymwys priodol fonitro cydymffurfiaeth drwy adolygu'r Ffeil Gwybodaeth am Gynhyrchion Cosmetig (PIF) ac alinio'r cynhwysyn â'r swyddogaeth. Fodd bynnag, nododd eraill nad yw adolygu rhestr cynhwysion cynnyrch cosmetig o enwau INCI (Enwau Rhyngwladol ar Gynhwysion Cosmetig) yn ddigonol am ei bod yn bosibl bod sawl ffurf wahanol ar lawer o sylweddau a restrir, e.e. nid yw enw'r INCI a ddefnyddir i labelu cynhwysion yn nodi ffurf ffisegol cynhwysyn.
38. Awgrymodd rhai ymatebwyr ei bod yn annhebygol y byddai angen cymryd camau gorfodi am fod y lefelau disgwylidiedig o ddiffyg cydymffurfiaeth yn isel. Awgrymodd rhai y dylai camau gorfodi gael eu cymryd gan asiantau megis timau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

39. Awgrymodd rhai y dylai camau gorfodi ganolbwyntio ar feysydd penodol roeddent yn ystyried bod risg uwch yn gysylltiedig â hwy, megis y rhai nad ydynt yn aelodau o gymdeithasau masnach a mewnfôrion.

Ymateb y Llywodraeth: cydymffurfio a gorfodi

40. Rydym yn cytuno bod disgwyl i nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth fod yn isel o ystyried y camau sydd wedi'u cymryd hyd yma gan y diwydiant cosmetigau. Mae angen y gyfundrefn orfodi i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn effeithiol a chreu'r effaith ataliol angenrheidiol. Felly, yn Lloegr, penodir Safonau Masnach i weithredu fel y rheoleiddiwr i asesu cydymffurfiaeth â'r gwaharddiad a chymryd camau gorfodi pan fo angen. Mae ganddi brofiad helaeth ym maes dadansoddi cynhyrchion traul a gorfodi deddfwriaeth sy'n ymwneud â chynhyrchion traul gan gynnwys cosmetigau.

41. Yn Lloegr, er y bydd methu â chydymffurfio â'r gwaharddiad yn drosedd, mae'n well gan y Llywodraeth orfodi achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth gan ddefnyddio'r gyfundrefn cosbau sifil. Ar ôl ystyried y sylwadau a gafwyd drwy'r broses ymgynghori, penderfynwyd mai'r sancsiynau sydd fwyaf priodol ac a fydd ar gael i'r rheoleiddiwr fydd cosbau ariannol amrywiadwy, hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau atal ac ymgymeriadau gorfodi fel y'u nodir yn Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 1990.

42. Bydd unrhyw un sydd â diddordeb yn y gwaharddiad a/neu y gallai'r gwaharddiad effeithio arno yn gallu cyflwyno sylwadau ar fanylion y gyfundrefn orfodi hon (neu'n wir unrhyw fater arall) pan gyhoeddir y ddeddfwriaeth ddrafft ar gyfer Lloegr yn y London Gazette yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

43. Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn ystyried dulliau priodol o orfodi gwaharddiad.

Mater a godwyd: costau i'r diwydiant a/neu gyfyngiadau arno

44. Rhoddodd llawer o ymatebwyr fanylion y camau y mae angen i'r diwydiant eu cymryd er mwyn gweithredu'r gwaharddiad arfaethedig, gan gynnwys datblygu opsiynau amgen addas, ailfformiwleiddio a phrofi. Fodd bynnag, ni roddwyd fawr ddim manylion am y gost ariannol.

45. Nododd llawer o ymatebwyr y byddai'r gost i'r diwydiant gryn dipyn yn fwy pe câi cwmpas y gwaharddiad ei ymestyn i gynnwys cynhyrchion a adewir ar y croen gan y byddai hyn yn gofyn am ailfformiwleiddio miloedd o gynhyrchion. Ychwanegodd rhai mai prin fydd y manteision i'r amgylchedd.

46. Nododd rhai ymatebwyr fod y penderfyniad i gyflwyno'r gwaharddiad fesul cam a'i amserlen yn rhoi amser i gwmnïau cosmetigau ddefnyddio eu stoc gyfan, a fyddai'n cyfyngu ar eu baich ariannol.
47. Awgrymodd rhai y gallai opsiynau amgen nad ydynt yn blastig fod yn ddrutach ac y gallai fod cost ychwanegol yn gysylltiedig â datblygu labeli newydd hyd yn oed ar gyfer cynhyrchion y tu allan i gwmpas y gwaharddiad, e.e. drwy ychwanegu symbolau Peidiwch â Fflysio.
48. Awgrymodd rhai y gellid trosglwyddo'r costau i ddefnyddwyr a nododd rhai y gallai defnyddio opsiynau amgen nad ydynt yn blastig ac sy'n ddrutach gael effaith negyddol ar allforion gan y byddai cwmnïau yn y DU o dan anfantais.
49. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) fod yn gymwys i gael grantiau i ariannu gweithgarwch Ymchwil a Datblygu a buddsoddi mewn cyfarpar a seilwaith newydd.

Ymateb y Llywodraeth: costau i'r diwydiant a/neu gyfyngiadau arno

50. Credwn fod yr amserlen ar gyfer gweithredu'r gwaharddiad yn rhesymol ac nad oes angen unrhyw gymorth pellach i gydymffurfio â'r gwaharddiad. Wrth wneud y penderfyniad hwn rydym wedi ystyried y ffaith bod rhan sylweddol o'r diwydiant wedi bod yn gweithio ar ddileu microbelennau o gynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol yn wirfoddol ers sawl blwyddyn.

Mater a godwyd: cysondeb â gwaharddiadau gwledydd eraill

51. Awgrymodd sawl ymatebwr y dylai unrhyw waharddiad fod yn gyson â deddfwriaeth mewn gwledydd eraill (yn yr UE a thu hwnt) er mwyn ei gwneud yn bosibl i nwyddau symud yn ddirwystr ac osgoi rhoi marchnad y DU o dan anfantais. Yn benodol, nododd sawl ymatebwr y byddai'n werth sicrhau bod y cwmpas a'r diffiniadau yn ein cynigion yn cyd-fynd â'r rhai a ddefnyddir mewn marchnadoedd byd-eang eraill.

Ymateb y Llywodraeth: cysondeb â gwaharddiadau gwledydd eraill

52. Rydym yn cytuno â'r awgrym hwn y dylai'r gwaharddiad fod yn gyson â dulliau gweithredu gwledydd eraill lle y bo'n bosibl ac yn briodol. Ein dull gweithredu yw targedu'r cynhyrchion hyn lle rydym yn gwybod bod tystiolaeth glir a chadarn bod microbelennau yn cyrraedd yr amgylchedd morol. Rydym wedi rhannu ein dull gweithredu â gwledydd eraill ac rydym yn eu hannog i ddilyn ein hesiampl. Rydym yn gweithio gydag OSPAR, Aelod-wladwriaethau eraill yn yr UE, gwledydd y G7 a fforymau rhyngwladol perthnasol eraill er mwyn helpu i ddatblygu gwaharddiadau rhyngwladol ehangach, sy'n cyd-fynd â gwaharddiad y DU.

53. Derbynnir y gallai'r gwaharddiad hwn effeithio ar fasnach. Felly, byddwn yn hysbysu'r UE (o dan y Gyfarwyddeb Safonau Technegol) a Sefydliad Masnach y Byd (o dan Gytundeb Rhwystrau Technegol i Fasnach) am ein cynigion, er mwyn rhoi cyfle i wledydd eraill ystyried y gwaharddiad, ei effaith ar fasnach a'r cyfiawnhad dros hynny (diogelu'r amgylchedd), a chyflwyno sylwadau arno.

Mater a godwyd: yr effaith ar fewnforion

54. Ychydig o ymatebwyr a roddodd awgrymiadau ynglŷn â'r effeithiau posibl ar fewnforion. Awgrymodd rhai y dylid annog mewnforwyr allweddol i wneud y newidiadau angenrheidiol i'w dull gweithredu eu hunain neu eu helpu i wneud y newidiadau hynny.

Ymateb y Llywodraeth: yr effaith ar fewnforion

55. Fel y nodwyd uchod mae llawer o wledydd, gan gynnwys gwledydd sy'n mewnforio cosmetigau a chynhyrchion gofal personol i'r DU, naill ai'n gweithredu eu gwaharddiadau eu hunain neu'n ystyried gwneud hynny. Felly, yn ein barn ni, ni fydd y gwaharddiad yn cael effaith sylweddol ar fewnforion.

Mater a godwyd: y costau/risgiau sy'n gysylltiedig ag opsiynau amgen

56. Cafwyd sawl awgrym ar gyfer opsiynau amgen i ficrobelennau plastig. Roedd y rhain yn cynnwys cregyn, hadau a chnewyll; dail, ffrwythau a gwymon; gronynnau seliwlos microrisialaidd; startsh a geir o yd, tapioca a charnwba; siwgr a halen; cwyrâu megis cŵyr gwenyn, cŵyr castor a chŵyr bran reis; a mwynau megis silica, cwarts a chlai. Yn ogystal â hyn, nododd sawl ymatebwr ei bod yn bwysig sicrhau bod effeithiau amgylcheddol yr opsiynau amgen posibl hyn yn cael eu hystyried yn ofalus cyn iddynt gael eu defnyddio.

Ymateb y Llywodraeth: y costau/risgiau sy'n gysylltiedig ag opsiynau amgen

57. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig bod gweithgynhyrchwyr yn sicrhau bod unrhyw opsiynau amgen i ficrobelennau plastig yn gynaliadwy a bod eu heffaith ar yr amgylchedd yn cael ei hasesu'n ofalus.

Ein cynigion

58. Rydym yn ddiolchgar am y dystiolaeth a ddaeth i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon nod cyffredinol ein cynigion o hyd yw gwahardd microbelennau plastig rinsio i ffwrdd rhag cael eu defnyddio mewn cosmetigau a chynhyrchion gofal personol lle mae tystiolaeth glir a chadarn bod yr amgylchedd morol yn cael ei niweidio. Lle y bo'n briodol, rydym

wedi defnyddio'r ymatebion i fireinio ein cynigion. Mae prif nodweddion ein cynigion diwygiedig fel a ganlyn:

- i. nid yw'r amserlen i'r gwaharddiad yn Lloegr ddod i rym wedi newid: bydd y gwaharddiad ar weithgynhyrchu cynhyrchion sy'n cynnwys microbelennau yn cychwyn ar 1 Ionawr 2018 a bydd y gwaharddiad ar eu gwerthu yn cychwyn ar 30 Mehefin 2018;
- ii. rydym wedi datblygu diffiniadau manwl o "microbelen", "plastig" and "cynnyrch gofal personol rinsio i ffwrdd" er mwyn nodi cwmpas y gwaharddiad yn glir;
- iii. rydym wedi cadw cwmpas cynhyrchion rinsio i ffwrdd, ond rydym hefyd yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Peryglus (HSAC) i asesu'r achos dros ystyried categorïau eraill o gynhyrchion.
- iv. rydym wedi nodi bod Safonau Masnach yn rheoleiddiwr addas i reoli cydymffurfiaeth a gweithgarwch gorfodi yn Lloegr.
- v. caiff y gwaharddiad ei orfodi yn Lloegr gan ddefnyddio amrywiaeth o sancsiynau gan gynnwys cosbau ariannol amrywiadwy, hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau atal ac ymgymeriadau gorfodi;
- vi. mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn ystyried dulliau gorfodi, rheoleiddwy'r ac amserlenni priodol yn ôl setliadau datganoli.

Casglu gwybodaeth i lywio camau gweithredu gan y DU i fynd i'r afael â llygredd microblastigau morol

59. Nodwyd y prif ffynonellau o fibroblastigau yn Rhan 3: Cefndir y ddogfen ymgynghori. Awgrymodd ymatebwyr ffynonellau ychwanegol at y rhai a nodwyd yn ein dogfen ymgynghori a nodi ymyriadau posibl i fynd i'r afael â hwy. Cydnabu rhai mai prin oedd y dystiolaeth am bwysigrwydd cymharol y ffynonellau o lygredd microblastigau morol.

Mater a godwyd: ffynonellau eraill o lygredd microblastigau

60. Awgrymodd llawer o ymatebwyr ffynonellau eraill o lygredd microblastigau morol. Ymhlith yr awgrymiadau roedd peledi plastig cyn cynhyrchu ('nurdles'), microffeibrau a ollyngir o beiriannau golchi, gronynnau teiars, pelennau plastig a ddefnyddir fel awyryddion ar safleoedd trin gwastraff dŵr, taenu slwtsh dŵr

gwastraff fel gwrtaiith amaethyddol a blychau polystyren a ddefnyddir yn y diwydiant pysgota i gludo pysgod a'u cadw'n oer.

61. Nododd rhai ymatebwyr waith ymchwil sy'n cael ei wneud i rai o'r ffynonellau hyn, gan gynnwys ymchwil i'r duedd i ronynnau teiars gael eu cadw mewn gwaddodion afon yn hytrach na mynd i mewn i'r amgylchedd morol lle mae'n wenwynig.

Mater a godwyd: ymyriadau i fynd i'r afael â ffynonellau eraill o lygredd microblastigau morol

62. Awgrymodd rhai ddulliau o fynd i'r afael â rhai o'r ffynonellau hyn. Ymhlith yr awgrymiadau roedd:

- i. cyflwyno Cynllun Dychwelyd Blaendal ar gyfer poteli plastig a/neu eitemau eraill;
- ii. ychwanegu hidlyddion at beiriannau golchi i ddal ffeibrau tecstilau a ryddheir wrth olchi dillad;
- iii. annog sefydliadau a diwydiannau i ymuno â 'Operation Clean Sweep', sef menter a sefydlwyd gan y diwydiant cosmetig er mwyn lleihau faint o beledi cyn cynhyrchu ('nurdles') a ollyngir i'r amgylchedd;
- iv. annog y defnydd o ddeunyddiau bioddiraddadwy yn lle plastigau, er enghraifft mewn amaethyddiaeth;
- v. gwella trefniadau casglu gwastraff gan gynnwys biowastraff megis bagiau y gellir eu compostio;
- vi. mwy o waith sgrinio mewn gweithfeydd trin carthffosiaeth;
- vii. annog y defnydd o wydr a chynhyrchion metel/pren yn hytrach na phlastig;
- viii. gwella addysg a gwella gweithgarwch gorfodi er mwyn atal offer pysgota rhag cael eu "colli".

Ymateb y Llywodraeth: ymyriadau i fynd i'r afael â ffynonellau eraill o lygredd microblastigau morol

63. Nod y DU yw mai hon fydd y genhedlaeth gyntaf ers y chwyldro diwydiannol i adael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell na'r hyn a etifeddwyd gennym. Felly, mae wedi rhoi amrywiaeth eang o gamau gweithredu a pholisïau ar waith i leihau ac atal sbwriel morol.

64. Nododd Strategaeth Forol y DU Rhan Tri, a gyhoeddwyd yn 2015, gamau a oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â sbwriel yn yr amgylchedd morol. Ymdriniodd â chamau gweithredu i atal ffynonellau sbwriel ar y tir ac ar y môr, camau gweithredu i wella addysg a chamau gweithredu i gael gwared ar sbwriel sydd eisoes wedi cyrraedd yr amgylchedd morol.
65. Gan fod sbwriel morol yn broblem drawsffiniol rydym yn gweithio gyda gwledydd eraill drwy OSPAR a fforymau rhyngwladol eraill, gan gynnwys grŵp y G7 a Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig. Drwy OSPAR mae'r DU a gwledydd cyfagos wedi datblygu Cynllun Gweithredu Rhanbarthol ar sbwriel morol ac yn ei roi ar waith.
66. Rydym hefyd yn monitro sbwriel morol ar draethau, yn y golofn ddŵr ac ar wely'r môr ac yn chwarae rôl weithredol wrth roi cyngor a dylanwadu ar waith ymchwil i sbwriel morol a microblastigau.
67. Rydym yn trafod â grwpiau amgylcheddol a sefydliadau ymchwil y ffordd orau i fynd i'r afael â phroblem gollwng peledi cyn cynhyrchu ('nurdles') i'r amgylchedd, megis drwy annog y diwydiant plastigau i ymuno ag Operation Clean Sweep, sy'n fenter i roi arfer da ar waith gyda'r nod o leihau faint o beledi cyn cynhyrchu a ollyngir i'r amgylchedd tra byddant yn cael eu cludo a'u defnyddio.
68. Cafodd llawer o'r gweddillion yn yr amgylchedd morol eu gollwng neu eu gwaredu ar dir ac, felly, mae camau gweithredu i leihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd systemau rheoli gwastraff yn cyfrannu at leihau faint o sbwriel sy'n cyrraedd yr amgylchedd morol.
69. Mae helpu i wella effeithlonrwydd adnoddau a sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth y DU. Rydym yn gweithio gyda chynhyrchwyr ym mhob rhan o'r gadwyn gwerth deunyddiau i ystyried sut y gellir dylunio cynhyrchion yn well a'u cynhyrchu'n fwy effeithlon er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r gwerth mwyaf posibl a lleihau'r effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'u hechdynnu, eu defnyddio a'u gwaredu.
70. Awdurdodau Lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau ailgylchu lleol, ac ar y cyd â deiliaid tai maent wedi chwarae rôl allweddol wrth gynyddu cyfradd ailgylchu'r DU i 44% yn 2015/16. Mae swm y plastigau a anfonir i'w hailgylchu wedi cynyddu. Mae cyfanswm y deunydd plastig a gesglir o wastraff o gartrefi er mwyn ei ailgylchu wedi cynyddu o 279k o dunelli yn 2010 i dros 420k o dunelli yn 2014.
71. Mae cyfraddau ailgylchu wedi parhau'n gymharol sefydlog ers 2012, ar ôl cynyddu'n sylweddol o 2000 ymlaen. Er mwyn cyflawni'r targed o 50% mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod angen gweithio gydag awdurdodau lleol i ehangu'r

ystod o ddeunyddiau a gesglir, gan gynnwys plastigau, a'i gwneud yn haws i ddeiliaid tai ailgylchu. At hynny, gan weithio drwy Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) mae'r Llywodraeth yn datblygu ac yn cyflawni gweithgareddau i gefnogi'r defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu mewn cynhyrchion newydd a nodi cyfleoedd i newid fformatau deunydd pacio (yn arbennig deunydd pacio plastig) i rai y gellir eu hailgylchu ac y mae marchnad gyson ar eu cyfer.

72. Mae camau gweithredu ychwanegol diweddar yn cynnwys tâl o 5c am fagiau siopa untro a gyflwynwyd yng Nghymru yn 2010; yng Ngogledd Iwerddon yn 2013; yn yr Alban yn 2014; ac yn Lloegr yn 2015. Hyd yma, bu'r tâl hwn yn effeithiol iawn wrth leihau'r defnydd o fagiau siopa untro (tua 70% neu fwy) wrth godi miliynau o bunnau ar gyfer achosion da gan gynnwys elusennau a grwpiau cymunedol.
73. Nod Strategaeth Sbwriel Lloegr, a gyhoeddwyd yn ddiweddar (2017) ac a ddatblygwyd gan Defra mewn cydweithrediad â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) a'r Adran Drafnidiaeth, yw defnyddio arfer gorau ym meysydd addysg, gorfodi a seilwaith er mwyn lleihau sbwriel ac ymddygiad taflu sbwriel ar dir yn sylweddol, a fydd yn ei dro yn lleihau faint o sbwriel sy'n cyrraedd yr amgylchedd morol.
74. Fel rhan o'n gwaith i gyflawni Strategaeth Sbwriel Lloegr, rydym wedi sefydlu nifer o weithgorddau i ystyried materion penodol. Y bwriad yw y bydd un gweithgor o'r fath yn ystyried gwahanol fentrau gwirfoddol ac economaidd i sicrhau bod mwy o ddeunydd pacio yn cael ei ailgylchu a'i aildefnyddio a lleihau nifer yr eitemau o sbwriel cyffredin a deflir. Yn ogystal â modelau gwirfoddol, mae cwmpas y Gweithgor arfaethedig yn cynnwys ystyried opsiynau rheoleiddiol a mesurau i dargedu mathau penodol o eitem neu gynnyrch, gan gynnwys costau llawn effeithiau a manteision mathau gwahanol o gynlluniau ernes a gwobr a dychwelyd ar gyfer cynwysyddion diodydd. Mae'r Pwyllgor Cynghori Annibynnol ar Ddeunydd Pacio hefyd wedi sefydlu tasglu i ystyried y rôl y gallai gwaith dylunio deunydd pacio ei chwarae o ran lleihau sbwriel ac ymddygiad taflu sbwriel. Bydd hyn yn cynnwys ystyried agweddau ar ddylunio (e.e. capiau datodadwy) ar gyfer amrywiaeth o eitemau sbwriel cyffredin gan gynnwys poteli diodydd plastig. Mae'r Strategaeth hefyd yn cyhoeddi 'cronfa arloesi ar gyfer sbwriel' newydd i dreialu prosiectau bach y gellid eu hefelychu'n ehangach, gan

gynnwys prosiectau y bwriedir iddynt leihau faint o sbwriel sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd morol.

75. Mae'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi cyhoeddi strategaethau penodol ar gyfer sbwriel morol. Cyhoeddodd yr Alban ei Strategaeth Sbwriel Morol² yn 2014, gan nodi'r dull o sicrhau bod cyn lleied o sbwriel â phosibl yn mynd i mewn i'r amgylchedd morol er mwyn sicrhau manteision ecolegol, economaidd a chymdeithasol. Cyflwynwyd Strategaeth Sbwriel Morol Gogledd Iwerddon³ yn 2013. Ei nod yw lleihau faint o sbwriel sy'n mynd i mewn i'r môr drwy fesurau sydd wedi'u targedu at newid ymddygiad, casglu data, gorfodi a sicrhau bod seilwaith arfordirol priodol; yn ogystal â chael gwared ar rywffaint o'r sbwriel sydd eisoes yn yr amgylchedd morol. Yng Nghymru, mae rhanddeiliaid wrthi'n datblygu Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Morol er mwyn nodi arfer gorau i fynd i'r afael â sbwriel morol ac arfordirol.

76. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant dŵr i leihau faint o sbwriel sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd o systemau carthion a dŵr gwastraff, yn unol â chyfarwydddebau Ewropeaidd ar ansawdd dŵr a thrin dŵr gwastraff. Fel arfer, ni fwriedir i systemau trin carthion dynnu microblastigau yn benodol. Fodd bynnag, bydd y lefel arferol o driniaeth yn y DU yn tynnu cyfran o ficroblastigau o elifion terfynol. At hynny, caiff eitemau plastig mwy o faint eu tynnu o garthion pan fydd yn cael ei thrin ac mae hyn yn lleihau ffynhonnell bosibl o ficroblastig eilaidd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwnaed buddsoddiad sylweddol mewn darparu mesurau i wella gweithfeydd trin carthion arfordirol a systemau casglu, gan gynnwys ychwanegu sgriniau at orlifoedd a/neu leihau faint o garthion a ollyngir o orlifoedd er mwyn cyfyngu ar ddigwyddiadau llygru. Mae'r buddsoddiad hwn yn cynnwys dros £8 biliwn yng Nghymru a Lloegr rhwng 1990 a 2010 a bwriedir gwneud buddsoddiad pellach rhwng nawr a 2020.

77. At hynny, mae ymgyrchoedd gan gwmnïau dŵr yn addysgu'r cyhoedd a busnesau ynglŷn ag eitemau a deunydd na ddylid eu gwaredu mewn carthffosydd, er mwyn eu hatal rhag cael eu blocio a chwtogi ar eitemau a allai, fel arall, fynd drwy garthffosydd a phrosesau trin. Fel rhan o hyn, mae cwmnïau dŵr yn gweithio gyda gweithgynhyrchwyr i newid y ffordd y caiff cynhyrchion eu

² <http://www.gov.scot/Publications/2014/09/4891>

³ <https://www.daera-ni.gov.uk/publications/northern-ireland-marine-litter-strategy>

marchnata a lleihau faint o ddeunydd a gaiff ei fflysio i ffwrdd. Mae mesurau i fynd i'r afael â llygredd o ddŵr wyneb ffo a draeniau hefyd yn debygol o leihau faint o sbwriel sy'n mynd i mewn i afonydd a chyrrff dŵr eraill. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau y gall yr hyn a waredir mewn carthffosydd ddadelfennu yn y system trin carthion er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

78. Er nad oes unrhyw blastig y profwyd ei fod yn gwbl fiogdiraddadwy yn yr amgylchedd morol ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu plastigau biogdiraddadwy cynaliadwy a deunyddiau eraill. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r Cynghorau Ymchwil er mwyn helpu i ddatblygu safon ar gyfer bagiau plastig biogdiraddadwy fel rhan o'r gwaith sy'n datblygu ar Strategaeth Fio-economi genedlaethol (tra'n cydnabod hefyd fod angen osgoi llygredd microblastigau).
79. Ym mis Mehefin 2017 ymunodd y DU ag ymgyrch Moroedd Glân y DU, sef llwyfan sydd â'r nod o gysylltu unigolion, grwpiau cymdeithas sifil, diwydiant a llywodraethau er mwyn trawsnewid arferion, safonau a pholisïau ledled y byd er mwyn lleihau sbwriel morol a'r niwed a achosir ganddo yn sylweddol.
80. Mae Cynllun Gweithredu Rhanbarthol OSPAR ar Sbwriel Morol yn cynnwys nifer o gamau gweithredu perthnasol gan gynnwys un i werthuso'r holl gynhyrchion a phrosesau sy'n cynnwys microblastigau cynradd a chymryd camau, os yw'n briodol, i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd morol. Byddwn yn rhannu ymatebion perthnasol o'r ymgynghoriad hwn ag OSPAR er mwyn ei helpu i roi ei Gynllun Gweithredu Rhanbarthol ar waith.
81. Byddwn yn parhau i asesu'r potensial ar gyfer camau gweithredu pellach i leihau llygredd microblastigau morol.

Atodiad A: Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiynau'r ymgynghoriad am y cynigion ar gyfer gwaharddiad

a. A yw ein cynigion ar gyfer gwaharddiad yn addas at y diben? Os gwnaethoch ateb "Nac ydynt", esboniwch pam. Sut y gellid geirio gwaharddiad yn wahanol er mwyn sicrhau y byddai'n lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â gronynnau o ficroblastigau o gynhyrchion gofal personol a chynhyrchion cosmetig sy'n cyrraedd yr amgylcheddol morol yn y ffordd fwyaf effeithiol?

b. Mae'r gwaharddiad arfaethedig hwn yn gymwys i gynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol rinsio i ffwrdd sy'n cynnwys sgrwbwyr ar gyfer cael gwared ar groen marw, geliau cawod a phastau dannedd, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt. A yw'r categori hwn yn briodol? A yw'r categori hwn yn briodol? Os gwnaethoch ateb "Nac ydy", pa gynhyrchion y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys iddynt, gan gofio mai diben y gwaharddiad yw diogelu'r amgylchedd morol? Rhowch dystiolaeth i ategu eich awgrymiadau.

c. A ddylid eithrio unrhyw gynhyrchion rhag y gwaharddiad? Os gwnaethoch ateb "Dylid", rhowch dystiolaeth i ategu eich awgrymiadau.

ch. Os na fwriedir i gynhyrchion fynd i lawr y draen, ond bod modd eu gwaredu fel hyn o hyd, pa ymyriadau neu rybuddion sy'n briodol i ddiogelu'r amgylchedd morol?

d. Sut y dylid monitro cydymffurfiaeth â'r gwaharddiad?

dd. Nodir ein cynigion ar gyfer gorfodi ym mhwynt (f) ar dudalen 9. Byddem yn croesawu sylwadau ar ein dull gweithredu arfaethedig, awgrymiadau ar gyfer dulliau gweithredu amgen a barn ar y ffordd fwyaf effeithiol a chymesur o orfodi'r gwaharddiad. Mae manylion am y mathau o sancsiynau sifil sydd ar gael wedi'u nodi yn adrannau Sancsiynau Sifil Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008, yn enwedig adrannau 39, 42 a 4612.

e. Pa gostau a/neu gyfyngiadau y byddai'r diwydiant, gan gynnwys busnesau bach a chanolig (BBaChau), yn eu hwynebu wrth gydymffurfio â gwaharddiad ar ficroblastigau mewn cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol?

f. I ba raddau y bydd y gwaharddiad yn effeithio ar fewnforion? Rhowch dystiolaeth i ategu eich awgrymiadau.

ff. Beth yw'r risgiau y bydd opsiynau amgen i ficrobelennau eu hunain yn cael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? Os felly, sut y gellid osgoi'r risgiau hyn, eu lleihau neu eu lliniaru? Rhowch dystiolaeth i ategu eich awgrymiadau.

¹³ <http://www.eunomia.co.uk/report-tag/microplastics>

Cwestiynau'r ymgynghoriad am ffynonellau eraill o lygredd microblastigau morol posibl gan gynnwys gweddillion plastig morol mwy o faint sy'n dadelfennu'n ficroblastigau, megis poteli plastig a deunydd pacio arall

a. Nodir ffynonellau allweddol o ficroblastigau yn y Ddogfen Ymgynghori (Rhan 3: Cefndir). A oes unrhyw rai ar goll neu'n amhriodol? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ymateb.

b. Pa ffynonellau o ficroblastigau sy'n peri'r risg fwyaf i'r amgylchedd morol? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ymateb.

c. Sut y dylid blaenoriaethu ffynonellau ar gyfer gweithredu? Esboniwch eich ymateb.

ch. Pa ymyriadau posibl y gellid eu datblygu er mwyn lleihau'r risgiau hyn a sut y gellid lleihau cost yr ymyriadau hyn? Pa effaith y mae'r ymyriadau hyn yn debygol o'i chael ar y diwydiant? Esboniwch eich ymateb.

Atodiad B: Rhestr o'r ymatebwyr

Sefydliadau a Enwir

A Rocha International
Acheson & Acheson Ltd
Aelod o Senedd Ewrop
Anglian Water Services Limited
Angling Trust
Angling-School CIC
Akzo Nobel Surface Chemistry
Ashland Specialties UK Limited
Awdurdod Porthladd Llundain- Ymgyrch 'Cleaner Thames'
BASF
Beiersdorf UK Ltd
Bristol Avon Catchment Partnership
British Coatings Federation Ltd
British Tyre Manufacturers' Association Ltd
Catholic Action for Animals
Cedre (French national Documentation, Research and Experimentation on accidental water pollutions)
City to Sea CIC
Clwb Genweirio Wrigley
Colne Valley Fisheries Consultative
Community of Arran Seabed Trust
Consortiwm Manwerthu Prydain
Cornish Plastic Pollution Coalition
Cosmetics Europe
COSMOS-standard AISBL
COTY
Croda International Plc
Cyfeillion y Ddaear Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Ards a North Down
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Cadwraeth Natur a Chefn Gwlad Gogledd Iwerddon
Cyngor Cernyw
Cyngor Cymuned Llanarthne
Cyngor Cymuned Llanddunwyd
Cyngor Dinas Belfast
Cyngor Dinas Plymouth

Cyngor Ecolegol Denmarc
Cyngor Sir Dyfnaint
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Swydd Aberdeen
Cyngor Tref Conwy
Cymdeithas Diwydiannau Bio a Biogddiraddadwy
Cymdeithas Diwydiannau Bio a Biogddiraddadwy
Cymdeithas Diwydiant Cynhyrchion Glanhau y DU
Cymdeithas Marciau Diogelwch ar y Ffyrdd
Cymdeithas Prif Swyddogion Safonau Masnach yn yr Alban
Cymdeithas Swolegol Llundain
Cymdeithas Tyfwyr Pysgod Cregyn yr Alban
Cymdeithas y Pridd
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Chanel
Charlotte Tilbury Beauty Ltd
Chichester Harbour Conservancy
Dorset Catchment Partnerships
DR COSREG LTD
Dŵr Cymru
Environmental Investigation Agency
Eunomia
Fauna and Flora International
FDD International
Fidra
GlaxoSmithKline
Greenpeace
Grŵp Diddordeb Arbennig Arfordirol Cymdeithas Llywodraeth Leol
Ffederasiwn Cynhwysion Cosmetig Ewrop
Ffederasiwn Plastigau Prydain
H. Bronnley & Co. UK Ltd
Hallstar
Henkel AG & Co. KGaA
Johnson&Johnson
KANEKA
Kao UK
Keep Britain Tidy
Keep NI Beautiful
Keep Scotland Beautiful
King's College London
Langstone Harbour Board

Lamberti S.p.A.
Litter Free Coast and Sea Dorset and East Devon
Love your Lough Voluntary Marine Conservation Group
Lubrizol Advanced Materials Europe BVBA
McBride plc
MediChem Manufacturing Ltd
Meller Design Solutions
Mercona (GB) Limited
Microbeads coalition (Greenpeace, Marine Conservation Society, Fauna and Flora International, Environmental Investigation Agency)
Natural Word environmental writing, editing and communications
NE Scotland Fisheries Development Partnership
Neal's Yard Remedies
Northumberland IFCA
Northumbrian Water
Pangaea Laboratories Ltd
Parciau Cenedlaethol Cymru (ymateb swyddogion o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Sir Benfro ac Eryri)
Pierre Fabre Limited
Pisces Environmental & Fisheries Services
Prifysgol Plymouth
Procter & Gamble UK
ProTec Ingredia Limited
Pupils2Parliament
PZ Cussons (UK) Ltd
Save Newcastle Wildlife
SCFF
Scottish Marine Animal Stranding Scheme/ SRUC
Scottish Water
Seafood Shetland
Seagull Fishing Tackle
Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd
Sefydliad y Merched
Severn Trent Water Ltd
Shetland Shellfish Management Organisation
Solent International Ltd
Solvay Solutions UK Ltd
Solway Firth Partnership
South Western Fish Producer Organisation LTD
Southern Water
Strangford Lough & Lecale Partnership
Surfachem Ltd

Tîm ymgyrch *Have You Got The Bottle?*

Transition Falmouth

Cyngor Tref Tywyn

The Dow Chemical Company

The Estee Lauder Companies

UK Water Industry Research Ltd

Variati SPA

Walgreens Boots Alliance

Wessex Water

Wildlife and Countryside Link

World Animal Protection

Y Cyngor Cynhyrchion Gofal Personol

Y Gymdeithas Cadwraeth Morol

Y Gymdeithas Pethau Ymolchi Cosmetig a Pheraroglaeth

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dorset

Sefydliadau dienw

Busnes sy'n ymwneud â gweithgynhyrchu a gwerthu cosmetigau a chynhyrchion gofal personol

Glanhau / Trefnu

Gweithgynhyrchwr Gofal Personol

Y Diwydiant Cosmetigau

Ymgwymerwr carthffosiaeth

Sefydliadau a ofynnodd am gael aros yn ddiennw

Unigolion (289)